

BEIRNIADAETH EINION DAFYDD

Hoffwn ddweud bod yma dri dosbarth amlwg – yr addawol, y medrus a’r aeddfed... ond dydy hi ddim mor hawdd a hynny. Ceir ysgrifennu cywrain ym mhob sgôr a chyffyrddiadau effeithiol wrth droi pob tudalen. Fodd bynnag, mae’r ysgol i frig y gystadleuaeth hon yn cynnwys camau sy’n dangos sgiliau technegol, hyder y cyfansoddwr yn yr arddull ddewisiedig a’r gallu i gyfuno elfennau er mwyn mynd â’r gwrandawr ar daith.

Gwelir nifer o syniadau cychwynnol da gan Chwrligwgan, Cae Clyd a Martha Powell a hwyrach y byddant yn dod i’w datblygu’n ddarnau mwy gorffenedig gyda phrofiad. Deuawd i ddwy delyn ydy gwaith Tannau. Mae’r syniadau cychwynnol yn effeithiol ond heb eu datblygu y tro hwn. Ac mae sgôr Mr Pwy a Wyr ar gyfer ensemble pres ac offerynnau taro yn ddarn y byddai llawer o grwpiau’n hoffi ei chwarae. Hwyrach mai cam nesaf y cyfansoddwr hwn fydd ehangu’r harmonïau a geir yn y darn. Mae Ar y Ffin yn dangos cyffyrddiadau harmonig jazz-aidd hyfryd mewn darn ensemble cymysg ond mae gwaith i’w wneud eto ar y dilyniant o syniadau; dydy’r rhagarweiniad ddim i’w weld yn perthyn i weddill y darn.

Mae negeseon pwerus yn cael eu cyflwyno mewn pedwarawd sacsoffon gan Ffynnon Gwyrdd, eto i gyd, strwythur yr adrannau sydd angen ei gryfhau. Dewisodd Huwcyn gyweirnod heriol (7b) ac mae’r sgôr yn frith o gyfarwyddiadau sy’n tueddu disgrifio’r gerddoriaeth yn hytrach nag awgrymu sut y dylid ei pherfformio. Serch hynny, mae symlder y dilyniant harmonig yn y symudiad olaf yn creu emosiwn pwrpasol. Yn Paranoia gan Bod Alaw yn defnyddio nifer o alawon o ffilmiau a chanu cyfoes ond hwyrach mai’r arddull sy’n creu *paranoia*’r teitl yn hytrach nag ymdriniaeth y cyfansoddwr.

Darnau sy’n adleisio’r cyfnod Clasurol ydy gwaith Nin a Bysedd Chwim – y naill yn symudiad symffonig ar gyfer cerddorfa linyddol a’r llall yn rondo ar gyfer piano. Mae’r ysgrifennu’n dda yn y ddau ddarn. Mae Bysedd Chwim yn creu adrannau cyferbyniol da bob yn ail â’r brif alaw ac

episodau tripledi aeddfed. Tybed a allai Nin fod wedi ehangu cwmpas yr harmoni y tu hwnt i'r llywydd-tonydd. Felly hefyd Bysedd Chwmin i raddau.

Mae rhywbeth yng ngwaith pob un o'r cyfansoddwyr uchod sy'n eu gwneud yn ymgeisydd cryf yn y gystadleuaeth hon. Wedi dweud hynny, mae cyfansoddiadau Gwern a Gwahoddiad yn fwy gorffenedig yn eu ffurf bresennol gan ddangos sgiliau technegol, hyder a'r gallu i fynd â ni 'ar daith'. Difyr oedd sylwi bod nifer o gystadleuwyr wedi gweu alawon cyfarwydd i'w cyfansoddiadau a dyna wnaeth y ddau hyn. Awgrym o Gee Ceffyl Bach sydd yn Efnisien ac mae'r ysgrifennu'n gynnwys a'r emosiwn yn gyfnewidiol. Nid wyf yn siŵr pa mor effeithiol ydy'r adran E ("yn urddasol") yn rhediad y darn ond mae'r darlun o weithred ddieflig Efnisien yn drawiadol. Mae gwaith Gwahoddiad yn gwneud defnydd unigryw o emynau Cymreig mewn sgôr hyderus sy'n cyfuno prysurdeb gydag adrannau hamddenol.

Rwy'n cymeradwyo Gwahoddiad i dderbyn Medal y Prif Gyfansoddwr eleni. Yn ail y mae Gwern a Bysedd Chwim yn drydydd.

[500 gair]